



Tarth trawiadol yn Nyffryn Clwyd

heddiw (4 Medi 2011) - cyn i'r haul godi uwchben y bryniau. Wnaiff o ddim para'n hir iawn. Llun: Gwyn Williams

Pier Llandudno 25 Awst 1923



Herring Gulls, mostly this year's mottled birds being fed by visitors food thrown high was nearly always caught, if the birds, which flew in circles, were within reach of the morsels, but if the morsels were below the birds' flight they did not dive after them, nor make a sharp turn to have a 2nd shot...On the ground, & flying when they picked up a morsel which touched the ground, were kittiwakes [llun chwith, Alun Williams], mostly young [llun ar y dde, gyda diolch i <http://www.pbase.com/jpkln/kittiwake>], with broad bar across end of tail feathers, & dark lines & patches on their wings in flight. The adult birds showed no brown or black

anywhere, wing and back were bluish, head & neck pure white. a few jackdaws also picked up (only) the fallen scraps, and there were actually sparrows on the stones & seaweed, which often got bits.

Dyddadur di-enw ond efallai y Parch. Lorrimer Thomas, Tywyn, Abergele

Roedd y dyddiadurwr yn adarydd da. Welsoch CHI wylannod coesddu yn hel sbarion y fisitors ar lan y mor erioed?

Y Wasg gyntaf..mwy

Yn rhifyn 43 cawsom hanes y wasg gyntaf gan Gareth Pritchard. Sbardunodd hyn i Steve Roddick (Arolwg Ordnans) chwilota ymysg ei hen luniau. Dyma a gafodd (llun ar y dde).

Please find attached a copy of a photo that I took back in the summer of 2007 near the bridge over the river in New Castle Emlyn. I came across the plaque while revising the maps of Ceredigion. The slate plaque records the setting up of the first printing press in Wales in 1718, perhaps it should read the first in New Castle Emlyn. I spoke to many local people about the plaque, and they were completely unaware of the presence of a plaque set in rock on the Little Orme that records the setting up a much earlier press. I think they thought I was being an awkward little Gog, trying to be clever! But perhaps the press in New Castle Emlyn was the first legal printing press in Wales.



Chippies a shibols

Sylw yn nyddiadur WRB Barbellion o Barnstaple, Dyfnaint:

I was surprised to discover the other day that when I talked of Chippies no one understood what I meant! It proves to be a dialect word familiar to all residents in Devonshire and designating spring onions. Anyway you won't find it in Murray's Dictionary; yet etymologically it is an extremely interesting word and a thoroughly good word with a splendid pedigree.

Italian: Cipollo.

Spanish: Cebolla.

French: Ciboule.

Latin: Cepulla, dim. of caepa (cf. cive, civot).

Now how did this pretty little alien manage to settle down among simple Devon folk? What has been the relation between Italy and - say Appledore, or Plymouth? The English Dialect Dictionary derives the word from Old French chiboule, and gives a reference to Piers Plowman. Why hasn't such an old and useful word become a part of the English language like others also brought over at the time of the Norman Conquest?

Yn amlwg doedd y dyddiadurwr ddim yn gwybod am ein gair ni yn y Gymraeg, sydd yn llawer agosach i'r Ffrangeg gwreiddiol.

Y Saith Rhyfeddod

Daeth Dafydd Whiteside Thomas ar draws y chwe phennill canlynol wedi eu teipio ar gefn hen fil cigydd o Gaernarfon tua'r 1940au. Yn anffodus, roedd y pennill cyntaf ar goll. Oes rhywun all ddarganfod y pennill coll - a'r awdur?

Mi glywais ddwedyd fod y **petris**

Ar fin y traeth yn chwarae tennis,
A'u bod yn gwneud eu peli o dywod
A dyna ddau o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y **cryman**

Mewn cae o haidd yn medi ei hunan,
A'i fod yn torri cefn mewn diwrnod
A dyna dri o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod pysgodyn
Yn cadw ty mewn twmpath eithin,
Ac yno'n byw ers pedwar diwrnod
A dyna bedwar o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y mochyn
Ar ben y car yn **llwytho rhedyn**,
A'i fod yn gwneud ei lwyth yn barod
A dyna bump o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y ceiliog
Ar Graig y Llan yn hela sgwarnog,
A'i fod yn dala dwy mewn diwrnod
A dyna chwech o'r saith rhyfeddod.

Mi glywais ddwedyd fod y wennol
Ar Fôr y De yn gosod pedol
A'i morthwyl aur, a'i hengan arian,
A dyna'r saith rhyfeddod allan.

Meddai Dafydd: "Mae'r penillion yn mynd a ni'n ôl i oes amaethyddol go wahanol. Faint o ffermwyr sy'n 'torri cefn' erbyn heddiw, neu hyd yn oed yn tyfu haidd? Ac er fod llawer o ladd a thorri rhedyn yn dal i ddigwydd, ychydig iawn sy'n ei gasglu ar gar neu drol". Papur bro Eco'r Wyddfa Medi 2007

Tafodiaith Penrhyn Gwyr

http://www.gowermagazine.com/gower_dialect.htm

Angletouch	a worm
Back	iron plate, part of a dredge
Bossey	a calf still running with its mother
Bumbagus	the bittern (cf Welsh aderyn y bwn)
Carthen	winnowing sheet
Cassaddle	harness piece for a draught horse
Charnel	box-like space above the fireplace, often used for hanging bacon
Cloam	earthenware
Cratch	haystack
Culm	small coal used in lime-burning [Bwletin 36 a 37]
Deal	a litter (of pigs)
Drashel	a flail
Dumbledarry	cockchafer [Bwletin 40]
Evil	a three pronged dung-fork
Galeeny	guinea-fowl [gweler Bulletin rhif 9 am fwy]
Gambo	a cart; wagon
Glaster	buttermilk in the churn [glasdwr?]
Gurgins	coarse flour
Hambrack	a straw horse-collar (cf rach)
Holmes	holly
Ipson	the quantity that can be held in a pair of cupped hands
Jalap	liniment; laxative tonic
Kerning	ripening; turning sour
Kersey	cloth woven from fine wool
Kittlebegs	gaiters
Kyling	sea fishing
Lake	small stream or brook
Lansher	greensward between holdings in a common field or viel
Mapsant	local saint's feast day celebrations
Mawn	arge wicker basket for animal feed
Mort	pigfat; lard
Mucka	a rickyard
Nestletrip	smallest pig in a litter
Oakwib	cockchafer [Bwletin 40]
Owlers	wool smugglers
Pill	stream
Pilmy	dusty
Rach	the last sheaf of corn to be harvested
Reremouse	the bat (animal)
Riff	short wooden stick for sharpening a scythe
Rying	fishing
Shoat	a small wheaten loaf
Slade	land sloping towards the sea
Soul	cheese or butter, as eaten with bread
Spleet	(1) a knitting needle, (2) a quarryman's bar
Vair	a stoat or weasel [Mwy am hyn cyn bo hir]
Viel/Vile	a field, still used to describe the common field at Rhossili
Want	a mole
Wimbling	winnowing
Witches	moths
Zig	urine
Zive	scythe
Zongals	corn gleanings
Zul/sul	a plough

O'r we

Salad y brain

Rook salad off Isle of Wight pub menu on police advice

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-hampshire-14613257>

Steve Roddick

Y Cynhesu Mawr

Os am weld lluniau syfrdanol o'r rhewlif pegynnol yn dadmar oherwydd Newid Hinsawdd, ewch i <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-mid-wales-14771523> gan Alan Hubbard o Brifysgol Aberystwyth

Ifor Williams

O bapurau Mary Vaughan

Nodiadau yn llawysgrifen y diweddar Mary Vaughan Jones yn archif Antur Waunfawr:

Nodyn 1:

John Evans* (CONCH): Buasai JE yn gyfarwydd a swyn y GROGEN yma. Galwyd y dynion o'r caeau pell o'r tŷ yn ôl am ginio a the etc gan alwad hon. Clywais fy nain yn ei "chwythu" lawer gwaith.

[A conch is a common name which is applied to a number of different species of medium-sized to large sea snails or their shells, generally those which are large and have a high spire and a siphonal canal. True conches are marine gastropod molluscs in the family Strombidae, specifically in the genus Strombus and other closely related genera such as *Eustrombus*. There are also many species often called "conch" that are not in the family Strombidae, and these include *Melongena* species (family Melongenidae), and the horse conch *Pleuroploca gigantea* (family Fasciolaridae). They also include the sacred chank or more correctly Shankha shell (*Turbinella pyrum*) and other *Turbinella* species in the family Turbinellidae. Wikipedia] *[yr anturiaethwr a'r mapiw'r 18g. o Hafod Oleu, Waunfawr, mae'n debyg Gol.]

Nodyn 2:

Y Garreg Wedi ei phwyso yn ofalus ai marcio yn ofalus gyda'r pwysau

Gweler Bwletin 39, tudalen 3

Prinder y sinabar?



Yr wythnos diwetha [canol mis Awst 2011] rwy wedi bod o amgylch yr ardal yn edrych am lindys y benfelen. Mae yna safleodd yma lle mae llyisiau'r gingroen [y benfelen] yn tyfu yn rheolaidd. Am y ddwy

flynedd diwetha does dim son am lindys teigr y benfelen. Er i mi a'r plant ddal llawer o ohonynt yn 2009 a'u tyfu ymlaen, dyna'r tro diwetha. Ydi hyn rywbeth ydych chi wedi dod ar draws?

Bryan Jones, Llangamarch

Cafodd Arfon Owen (a dynnodd y llun) drafferth ym mis Gorffennaf 2009 cael gafael ar lindys y benfelen yn ardal y Felinheli er bod digon o'r creulys (neu'r benfelen) ganddo wrth law. Clywodd bod digonedd ohonynt ym Mhenlôn, Niwbwrch yr wythnos cynt.

Swyo

Bu papur bro Y Gadlas yn codi yn ddiweddar gofnodion o ddyddiadur Lloyd George Williams, Bryniau Pair Ucha, Gwytherin, Sir Ddinbych. Mae LIGW yn cyfeirio'n fynych at SWYO, a hyd yma does neb yn gwybod be mae'n ei olygu. Dyma un cofnod allan o 31 sydd i'w gweld yn DYDDIADUR Llên Natur ar y wefan. 21 Ebrill 1911: Eger iawn bore. Swyo. Lingsio'r tail oedd wedi ei chwalu yn Penucha'r Weun. Dwad yn wlyb iawn. Bugeilio hefo William. Cynigion os gwelwch yn dda i ystyr swyo felly - .

O'r blogs

As to winter streams – are there any watercourses that occur only during the Welsh summer (I say this mostly but not wholly in jest!) There is the River Haffes in Cwm Haffes near the top of Cwm Tawe – does that bear on this conversation I wonder?

Alan Bowring

'Sefin' appears as a stream name, just outside the Park, with a house called Abersefin just north of the Usk at Penpont, and of course there is also Glansefin, near Llandeilo, where Marchell stayed on the first night of her flight to the west (second stop Meidrim).

Brynach Pari

Dywedir mae ystyr 'haf' sydd wrth wraidd Llyn Safaddan yma ym mogel Brycheiniog, sef y llyn oedd yn gartref haf traddodiadol i'r teulu brenhinol, ac rhywbeth fel Duwies yr Haf oedd ystyr yr enw. 'Samhan' yw Gŵyl yr hâf yn y Wyddeleg. Sefin, felly, yw nant sydd yn rhedeg yn yr haf, a ddim yn hesbi - rhaid oedd y tywydd yn well yn y gorrffennol nag yw hi heddiw.

Brynach Pari brecknockplacenames@fiesta.cc

Adar clwydo?

Gofynnodd rhywun ar fforwm y cyfieithwyr yn ddiweddar beth oedd 'passerine' yn Gymraeg – 'golfan' yn ôl y geiriadur, ond mae'n well gen i 'adar clwydo', am mai 'sparrow' yw golfan, ac mae'n hawdd drysu rhwng gwahanol rywogaethau ohonynt. Mae'r enw 'golfan y mynydd' (*tree sparrow*, *Passer montanus*) yn ymddangos yng nghyfrif gyntaf cyfres enwau creaduriaid a phlanhigion Cymdeithas Edward Llwyd, a dyna'r unig 'golfan' sydd yn y llyfr. Ond mae 'golfan y coed' wedi cael ei ddefnyddio am yr un aderyn, ac mae 'na 'golfan y graig' (*rock sparrow*, *Petronia petronia*). Yn Llyfr Adar lolo Williams mae 'na 'golfan yr Eidal' (*Italian Sparrow*) hefyd. Ni ddefnyddir yr enwau gwyddonol yn y llyfr hwnnw, na chwaith, mae arna i ofn, yn nogfennau bioamrywiaeth rhai awdurdodau lleol, felly nid oes sicrwydd bob amser am ba adar y maent yn sôn amdanynt.

Dafydd Lewis

Cytuno efo "adar clwydo" (*perching birds*) er, i mi (Gol.), 'dydi clwydo ddim yn cyfleu ystyr *perching* yn union gan fod elfen o gysgu ("mynd i glwydo"), onid oes, yn yr ystyr? Efallai bod elfen o anwybodaeth ar ran y geiriadurwr wrth gynnig golfan yn yr ystyr yma ond ni allaf gynnig gwell. Mae yna bytiau am *Passer montanus* yn Rhifynnau 37 a 41 o'r Bwletin (ond rheiny yn cwestiynu pam *montanus*).

Y Saith Rhyfeddod (tudalen 2 uchod.. mwy, o'r dyddiaduron)

Llansilyn, Sir Dinbych 21 Rhag 1925: Mynd ar gwn rownd saethu **Petrisen...** gyru cwpl betris i Jones

Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilyn, Sir Dinbych.

Bwlchtocyn 1 Ebrill 1953: Gorffen barbio lôn bach. **Cryman** wedi torri ei garn. Dyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn, Llŷn

Dyddiadur Willam Jones, Moelfre, Aberdaron

Llansilin, Sir Dinbych 25 Ion 1934: Cael dwy **sgwarnog** yn magle.

Dyddiadur Hugh Jones Cwm Canol. Llansilin, Sir Ddinbych

Gwyl Mabsant 'Nechtyd

Dyma un arall at y rhestr enwau planhigion ag iddynt gysylltiadau crefyddol. Mae'r canlynol ar dudalennau 63-64 llyfr y Parch. Elias Owen, Efenechtyd, "Old Stone Crosses of the Vale of Clwyd and Neighbouring Parishes," a gyhoeddwyd ym 1886. Dweud y mae Owen am blwyf Efenechtyd, sydd tan nawdd Mihangel yr Archangel:

"A plant, the Michaelmas Daisy, which blossoms in the fall of the year, is locally called Blodau Gwylmabsant 'Nechtyd, or the blossoms of the patron saint of 'Nechtyd (Efenechtyd). It was customary for every one to wear a bunch of flowers during the feast, and strangers begged them of the cottagers, who willingly gave a sprig, for they had taken care to cultivate the plant for this special purpose. Mr Lewis Jones, Brynffynnon, a farmer in the parish, from whom I have obtained this information about the flowers, told me that his mother was in the habit of calling his attention to the approach of the wakes by saying, "Look, Lewis, the wakes are approaching, for the saint's flowers begin o blossom." Lewis was then a small child, and he remembers his mother taking him to the wakes once and only once. Since Lewis is between 40 and 50 years old, it would seem that the wakes were kept in this parish up to about 40 years ago..."

Hyd tua 1846, hynny yw. Ga'i awgrymu ychwanegu enw Blodau Gwylmabsant 'Nechtyd at y rhestr sydd ar y wefan, gyda'r Lladin "Aster spp." a'r Saesneg "Michaelmas Daisy"? Gwn y tueddir i gyfyngu "Blodau Mihangel" i Aster novi-belgii, ond y mae "Gardeners' Encyclopedia of Plants and Flowers" yr RHS yn fwy penagored, gan awgrymu y gallai fod yn enw ar agos unrhyw Aster. Mae'r "Old Stone Crosses" yn llawn hanesion diddorol o'r fath. Howard Huws
[Gweler Bwletin 19 am lun a mwy o hanes blodau Mihangel - neu bellach, blodau Gwyl Mabsant 'Nechtyd!]

Hel wyau griglod



Fy modryb (91 oed) yn dweud fel y byddai yn mynd i aros at ei Nhain i Benrallt, Paradwys a cherdded i Falltraeth i hel cocos. Finau yn cofio mynd i aros ati hi i Aberffraw pan yn blentyn yn y 50au a chael wŷ cornchwiglan

wedi ei ffrio. Roedd yn arfer gan rai o'r Berffro fynd i hel wyau cornchwiglod i'w bwyta. Ychwanegodd fod "yr hogia yn mynd hyd y twyni hefo tunia a gneud tan a berwi'r wyau a'i bwyta. A hefyd - mynd a nhw i'w gwerthu i bobl fawr Rhosneigr". Mwy byth - wedi imi siarad efo mam - hithau'n cofio mynd i aros hefo'i chwaer i Penyrsedd yn agos i'r Berffro a Hughie (ei brawd yng nghyfraith) yn mynd i'r caeau i hel wyau cornchwiglod a Lisi yn eu ffrio. Mam yn dotio nad oedd y gwynwy yn troi yn wyn ond yn aros yn glir. Hynny yn gof plentyn gen i hefyd a methu dallt pam nad oedd y gwynwy yn wyn. Mam yn eu galw yn griglan neu griglod.

Olwen Evans

Eisteddfod Lerpwl 1884 - canol Medi

Aberdaron 15 Medi 1884: Sych. Cario ceirch o Cae'r Afon. Eisteddfod yn Liverpool yn dechrau ac yn parhau tan ddydd Sadwrn

Dyddiadur William Jones, Moelfre

Pôs y mis



Mae'r ffotograffydd Alun Williams newydd ddod yn ôl o Fotswana a fo sydd yn gosod y pôs y mis hwn. Mae tri math o olion pawen yma, hyena, llew a jacal. Y gamp yw eu rhoi yn eu trefn, chwith, canol a de. (Cofiwch bod cathod yn tynnu eu gewinau i fewn). Tocyn llyfr fel arfer am yr ateb cywir cyntaf i gyrraedd trwy "Cysylltwch" gwefan Llên Natur erbyn 15 Hydref.

Aderyn Lerpwl

Pa aderyn yw aderyn Lerpwl – y Liver-bird? Mae'n goesog, fel y creÿr glas. Fe'i cerfiwyd ar grib cadair dderw Eisteddfod Lerpwl, 1884, gan Morris Henry Roberts (1865 – 1927), Llangollen. Enillwyd hi gan Ddyfed. Y mae ar gadw yn AWC. Aderyn Lerpwl – Liver Bird – cormorant – mulfran / morfan – Wil-wal-waliog – bilidowcar...

Cefais yr ateb gan Pamela Raman, y ferch sy'n gweithio yn Swyddfa'r Maer, Neuadd y Dref, Lerpwl. Yng nghyntedd y Neuadd y cedwir y gadair hardd sy'n gopi gan Morris Henry Roberts, Llangollen, o'r gadair a wnaed ganddo ar gyfer Eisteddfod Lerpwl, 1884. Ef a enillodd y gystadleuaeth i wneud cadair dderw. Evan Rees, 'Dyfed', enillodd y gadair am ei awdl, 'Gwilym Hiraethog'. Ar y naill gadair a'r llall gwelir cerfiad o Aderyn Lerpwl...Diddorol fod Geiriadur yr Academi yn cynnwys Wil-wal-weliog fel un enw cyfystyr. Gwyddai Eleri am yr aderyn hwn a'i fod, meddai, yn gallu llyncu pysgod mawr oherwydd fod ganddo big a chorn gwddw mor hir.

Mae'r hen rigwm:

Wil wal weliog

Twll dîn ceiliog'

yn lled gyfarwydd, ond gan Eleri y clywais gyntaf yr ychwanegiad :

Coc ddryw bach

A cheilliau sgwarnog.

Enwau Dewi Lewis (Robin Gwynnaf)

Mulfran, morfran, bili dowcar (Gwynedd), colier, wil wal waliog, llanc llandudno, gloddestwr, bilidowcan (Caernarfon), wil yr aber (sir Gaerfyrddin), y willbolfran (Llandudoch), Phalacrocorax carbo, Cormorant

Enwau Adar: Dewi E Lewis Gwasg Carreg Gwalch a Chymdeithas Edward Llwyd

